NEATH PORT TALBOT CVS

CASTELL-NEDD PORT TALBOT



ADRODDIAD EFFAITH BLYNYDDOL

2022-2023

25 mlynedd o gefnogi, hyrwyddo a datblygu'r sector gwirfoddol lleol

EIN HEFFAITH LEDLED CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Mae ein Hadroddiad Effaith Blynyddol yn tynnu sylw at y gwahaniaethau cadarnhaol yr ydym wedi'u gwneud i gymunedau ledled Castell-nedd Port Talbot yn ystod y flwyddyn 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot yw'r sefydliad ymbarél ar gyfer y trydydd sector yng Nghastell-nedd Port Talbot. Rydym yn gweithio gyda'r sector i gryfhau cymunedau a newid bywydau. Rydym yn cefnogi, yn datblygu ac yn ymgyrchu dros fudiadau gwirfoddol, gweithredu cymunedol a gwirfoddoli yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae gennym 375 o aelodau ac rydym mewn cysylltiad â llawer o sefydliadau drwy ystod eang o rwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, sydd i gyd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ni fyddem yn gallu gwneud hyn heb gefnogaeth ein cyllidwyr a'n partneriaid.

Mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot yn aelod o bartneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sy'n cynnwys Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Canolfannau Gwirfoddol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn cefnogi trydydd sector bywiog Cymru drwy weithio i fanylebau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a manylion aelodaeth, ewch i www.nptcvs.wales

Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol @NPTCVS:

Rhif Elusen Gofrestredig 1064450 • Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 3341466

CYNNWYS

RHAGAIR	4
CYFLWYNIAD	5
CRYNODEB O'R FLWYDDYN	6
CYLLID CYNALIADWY **Adran 1**	7 - 9
GWIRFODDOLI **Adran 2**	10 - 11
YMGYSYLLTU A DYLANWADU **Adran 3**	12 - 13
LLYWODRAETHU DA **Adran 4**	14
GWYBODAETH, CYNGOR A HYFFORDDIANT **Adran 5**	15
IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES **Adran 6**	16 - 21
YR HYN Y MAE'R RHAI RYDYM WEDI GWEITHIO GYDA NHW WEDI EI DDWEUD	22
YMDDIRIEDOLWYR A GWEINYDDWYR ELUSEN	23
CYFRIFON	24 - 27
CERRIG MILLTIR	28 - 31



RHAGAIR



DR EDWARD ROBERTS MBE DL CStJ FRCGP
CADEIRYDD BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR

Ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, mae'n fraint gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2022-2023, sef ein 25ain Adroddiad Blynyddol hefyd. Fel Cadeirydd, rwy'n falch iawn o rannu'r cynnydd y mae ein sefydliad wedi'i wneud a'r hyn y mae wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf wrth i ni barhau i gefnogi, hyrwyddo a datblygu'r trydydd sector yma yng Nghastell-nedd Port Talbot a chael effaith gadarnhaol trwy'r gwaith a wnawn.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i fy nghydweithwyr ar y Bwrdd am eu doethineb, eu craffter a'u harweiniad wrth lywodraethu'r sefydliad. Hoffwn hefyd dalu teyrnged arbennig i'n diweddar gydweithiwr ar y Bwrdd, David Davies, a fu'n Ymddiriedolwr am 21 mlynedd, 8 o'r rheiny fel Cadeirydd. Ni fyddwn byth yn anghofio cyfraniad David i'r sefydliad.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i brofi gwydnwch ein sefydliad a'r sector cymunedol a gwirfoddol ehangach, yn ogystal â'u gallu i addasu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi mynd drwy gyfnodau cythryblus, gan gynnwys pandemig Covid-19, sydd wedi effeithio ar ganfyddiadau pobl o'r gweithle ac wedi cyflwyno dulliau newydd o weithio yn y dyfodol. Trwy hyn i gyd, mae'r sefydliad wedi dangos gwydnwch, hyblygrwydd, arloesedd, ac ysbryd o gydweithredu. Rwy'n falch bod Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot wedi parhau'n ymrwymedig i'w werthoedd craidd a'i amcanion strategol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn gofnod o ymrwymiad a gwaith caled ein Cyfarwyddwr, ein tîm o staff, ein gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr. Trwy eu hymdrechion ar y cyd a'u hymrwymiad diwyro, rydym wedi gallu parhau i fod yn bartner allweddol, gan weithio'n galed ar gyfer cynaliadwyedd a thwf.

Yn yr adroddiad hwn, ceir gwybodaeth am ein perfformiad ariannol, ein prosiectau allweddol, a'r effaith gadarnhaol rydym wedi'i chael ar fywydau cymunedau ac unigolion. Rydym wedi parhau i gymryd rhan mewn partneriaethau strategol, cryfhau ein heffeithlonrwydd gweithredol, a chynyddu ein cyrhaeddiad a'n heffaith gymaint â phosibl.

Wrth i ni fyfyrio ar lwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y dyfodol. Rhaid i ni barhau i esblygu mewn ymateb i fyd sy'n newid yn gyflym ac addasu i anghenion newidiol ein buddiolwyr a'n cymunedau. Mae'r heriau sydd o'n blaenau yn gofyn i ni fod yn hyblyg, yn arloesol ac yn rhagweithiol.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'n haelodau, ein gwirfoddolwyr, ein partneriaid, y Cyfarwyddwr a'r staff am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth ddiwyro. Rydym yn edrych ymlaen at eich partneriaeth a'ch cefnogaeth barhaus wrth i ni gychwyn ar fentrau newydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Gyda'n gilydd, rydym yn croesawu'r dyfodol gyda phenderfyniad ac ymrwymiad ar y cyd i gyflawni pethau gwell i'n cymunedau.



CYFLWYNIAD



GAYNOR RICHARDS MBE DL LLD (Hon)
CYFARWYDDWR

Rwy'n falch o gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-2023. Yn ogystal â dathlu ein cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf hefyd yn myfyrio ar daith ryfeddol ein sefydliad a'r effaith rydym wedi'i chael ar y cyd ar grwpiau, sefydliadau, unigolion, a bywydau'r rhai mewn angen, dros y 25 mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi tyfu, ymestyn ein cyrhaeddiad, cryfhau ein heffaith, ac wedi darparu cefnogaeth hanfodol sydd wedi cyffwrdd â llawer iawn o fywydau, ac wedi helpu i rymuso unigolion, grwpiau a chymunedau i adeiladu dyfodol gwell.

Fel Cyfarwyddwr, mae'n fraint i mi arwain tîm sy'n ymroddedig i'n cenhadaeth o greu newid cadarnhaol ac i weithio gyda phartneriaid sydd eisiau cydweithio i gryfhau ein cymunedau.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn dyst i'n hymrwymiad a'n penderfyniad diwyro i helpu'r rhai sydd angen ein cefnogaeth wrth addasu i anghenion esblygol ein haelodau a'n cymunedau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun manwl o'n cyflawniadau, ein prosiectau a'n perfformiad ariannol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n dangos yr hyn y gellir ei wneud gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth go iawn trwy weithredu ar y cyd a photensial trawsnewidiol y gwaith yr ydym yn ymwneud ag ef, yn enwedig ar draws pileri strategol Cefnogi Trydydd Sector Cymru: gwirfoddoli; llywodraethu da; cyllid cynaliadwy; ymgysylltu a dylanwadu.

Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb haelioni a chefnogaeth ein haelodau, ein partneriaid, ein cyllidwyr a'n gwirfoddolwyr. Mae eich cefnogaeth barhaus i ddod â chyfle, gobaith ac urddas i unigolion yn hanfodol wrth i ni wynebu'r heriau sydd o'n blaenau. Ni fu erioed fwy o angen am ein cefnogaeth ar y cyd. Mae'r Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithredu, trawsnewid, atal a chwilio am atebion sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau sylfaenol tlodi, anghydraddoldeb a'r argyfwng costau byw.

Rhaid croesawu heriau a chyfleoedd eraill hefyd, gan gynnwys datblygiadau mewn technoleg ddigidol, a'r twf mewn deallusrwydd artiffisial. Fel sector, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ddatblygiadau byd-eang yn ogystal â datblygiadau economaidd lleol cyffrous iawn fel y Porthladd Rhydd Celtaidd.

Rwy'n cydnabod ac yn ddiolchgar am waith caled ac ymroddiad ein staff, ein gwirfoddolwyr, ein cyllidwyr a'n partneriaid - yn awr ac yn y gorffennol - a phob un ohonoch am eich cefnogaeth a'ch ymddiriedaeth amhrisiadwy yn ein sefydliad. Mae eich partneriaeth wedi ein galluogi i greu newid parhaol a dod â gobaith i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth ystyrlon. Diolch am aros gyda ni ar y daith ryfeddol hon o dosturi, gwydnwch a gobaith.



CRYNODEB O'R FLWYDDYN

Gan ganolbwyntio ar barhad busnes a gwasanaethau a'u cynaliadwyedd, gwnaethom gyflawni ein gweithgareddau craidd o dan bedwar piler strategol Cefnogi Trydydd Sector Cymru: cyllid cynaliadwy; gwirfoddoli; dylanwadu ac ymgysylltu; a llywodraethu da. Buom yn gweithio gyda phartneriaid allweddol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i grwpiau cymunedol, sefydliadau ac unigolion.

CYLLID CYNALIADWY

£3,800,000 o gyllid wedi'i sicrhau gan grwpiau yn dilyn cyngor.

£595,226 o gyllid wedi'i ddarparu drwy gynlluniau grant a weinyddwyd gan y sefydliad.

204 o sefydliadau wedi cael eu cefnogi i gael gafael ar gyllid.

GWIRFODDOLI

380 o unigolion wedi cael eu cefnogi gan wirfoddolwyr.

44 o sefydliadau wedi cael eu cefnogi gydag arfer da o ran gwirfoddoli.

YMGYSYLLTU A DYLANWADU

62 o fforymau neu rwydweithiau trydydd sector wedi cael eu cefnogi.

98 o grwpiau cynllunio strategol/gweithgorau yn cynnwys cynrychiolaeth o'r trydydd sector.

GOOD GOVERNANCE

30 o grwpiau newydd wedi cael eu sefydlu, y mae 7 ohonynt wedi cael eu cefnogi i gofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol.

190 o grwpiau wedi cael eu cefnogi i gryfhau eu llywodraethu.

CYLLID CYNALIADWY

ADRAN 1

Buom yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau i gael gafael ar gyllid sydd ar gael drwy amrywiaeth o ffynonellau ariannu, yn ogystal â gweinyddu a dosbarthu grantiau ar gyfer y sector.

EIN CYFLAWNIADAU

£3,800,000 o gyllid wedi'i sicrhau gan grwpiau yn dilyn cyngor.

£595,226 o gyllid wedi'i ddarparu drwy gynlluniau grant a weinyddwyd gennym.

204 o sefydliadau wedi cael eu cefnogi i gael gafael ar gyllid.

PROSIECT CEFNOGI CYMUNEDAU

Wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen y Cymoedd, gwnaethom gyflawni'r prosiect Cefnogi Cymunedau gan:

- Helpu 48 o grwpiau i sicrhau £412,000 o gronfa gymunedol Pen y Cymoedd.
- Darparu hyfforddiant diogelu ar draws ardal y gronfa, gyda 12 grŵp yn bresennol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Interlink RCT ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo i helpu 13 o adeiladau cymunedol yng Nghymoedd Afan a Nedd i gynnal archwiliadau ynni ar eu hadeiladau i dynnu sylw at yr hyn y gellir ei wneud i gynorthwyo gyda chynaliadwyedd.
- Cynhyrchu Canllaw Beth Sydd Ymlaen i blant a phobl ifanc lleol, gan dynnu sylw at yr ystod o weithgareddau sydd ar gael yn lleol i helpu i fynd i'r afael â lefelau uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â phobl ifanc.
- Cyflwyno tri chwrs Ysgrifennu Ceisiadau Sylfaenol. Fe ddywedodd yr 17 unigolyn a fynychodd.

"Roedd yn addysgiadol iawn a rhoddodd fwy o wybodaeth nag yr oeddwn yn ymwybodol ohoni."

"Cwrs da iawn, yn enwedig ar gyfer grwpiau cymunedol."



- Sefydlu 11 o Rwydweithiau Cymdogaeth yng Nghastell-nedd, Afan a Phelenna, gan greu cyfle i grwpiau lleol feithrin perthynas ag eraill. Roedd hyn yn cynnwys:
- Cyfarfu Cymdeithas Gardd Gymunedol Dyffryn â Llyfrgell Gymunedol Cymer Afan a Sefydliad Cymunedol Gilgal i sicrhau bod cynnyrch dros ben o'r ardd yn gallu cael ei rannu â'r Banc Bwyd lleol a'r Clwb Coffi a Brecwast.
- Cefnogodd Banc Bwyd Cwm Nedd Ystafelloedd Te Glyn-nedd i weini 168 o brydau brecwast am ddim i deuluoedd lleol yn ystod gwyliau'r haf.
- Cysylltodd Adsefydlu Niwrolegol Cymru â Chlwb Pêl-droed Resolfen i nodi lleoliadau allgymorth ychwanegol ar gyfer eu gwasanaethau.

CRONFA ADFYWIO CYMUNEDOL

Buom yn gweithio gyda'r sector i sicrhau £500,000 o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU i ddarparu cynllun grant ar gyfer sefydliadau trydydd sector. Sicrhaodd yr arian fod:

217 o gyrsiau hyfforddi yn cael eu cyflwyno.

424 o bobl yn ennill cymhwyster.

60 o wasanaethau/prosiectau newydd yn cael eu creu.

18 o swyddi newydd yn cael eu creu a 63 o swyddi yn cael eu diogelu.



ASTUDIAETHAU ACHOS

Fresh Start – Cwm Afan Uchaf

Derbyniodd y grŵp, sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu, £3.6k i gyflwyno rhaglen ddysgu anffurfiol sy'n hyrwyddo sgiliau byw'n annibynnol gan gynnwys bwyta'n iach, maeth, TG, hyfforddiant teithio, rheoli arian, coginio a thyfu eich bwyd eich hun. O ganlyniad, mae pob un o'r 8 buddiolwr bellach wedi'u cofrestru ar gwrs Bwyta'n Iach Lefel Mynediad gydag Addysg Oedolion yn y Gymuned Castell-nedd Port Talbot.

Canolfan Maerdy

Mae Canolfan Maerdy, sy'n gorff angori cymunedol ar gyfer Cwm Aman Uchaf, yn darparu hwb cymunedol amlbwrpas fel rhan o ymdrech gydweithredol i adfywio'r economi leol a oedd yn fywiog ar un adeg. Ar ôl derbyn £18.5k gan Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector y Gronfa Adfywio Cymunedol, roedd Canolfan Maerdy yn gallu cynnig interniaethau gwaith ieuenctid a chymunedol newydd yn ogystal â diogelu swydd Arweinydd Ieuenctid. Cafodd dau breswylydd lleol eu cyflogi fel interniaid a gwnaethant gychwyn ar raglen gynhwysfawr o hyfforddiant gan gynnwys NVQ Lefel 2 mewn Gwaith Ieuenctid, Cymorth Cyntaf Brys a Diogelwch Bwyd. Cafodd staff a gwirfoddolwyr eraill yn y sefydliad gyfle i gael yr hyfforddiant hefyd ac enillwyd 20 o gymwysterau i gyd drwy gyfres o 8 cwrs hyfforddi.

Roedd yr interniaid yn canolbwyntio ar waith ieuenctid, gan ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc leol wella eu hyder, eu sgiliau a'u gwybodaeth ochr yn ochr â'u cyfoedion. Cymerodd 35 o bobl ifanc ran mewn gweithdai a oedd yn cwmpasu ystod eang o bynciau gan gynnwys Cadw'n Ddiogel Ar-lein, Magu Hyder, Iechyd Rhywiol, Defnyddio Sylweddau, Maeth a Choginio'n Iach.

"Hoffem ddiolch i Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector am ein galluogi i gyflogi, hyfforddi a chynnig ystod wych o brofiadau i ddau aelod newydd o staff a hefyd i ddiogelu rôl ein Harweinydd Ieuenctid sy'n rhedeg darpariaeth ieuenctid boblogaidd iawn y mae ei hangen yn fawr. Mae ganddi 95 o aelodau erbyn hyn ac mae'n cael ei chynnal 3 noson yr wythnos. Mae'r profiad a gafwyd yn ystod yr interniaethau wedi bod yn werthfawr iawn i'r unigolion dan sylw. Mae cael y swyddi newydd hyn wedi ein galluogi ni fel sefydliad i gryfhau a datblygu ein gwasanaethau yn y gymuned i lefel wahanol.

Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Ffynnon Oer (darparwyd gan Ventient Energy)

Gwnaethom weinyddu £68,226.86 drwy Gronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Ffynnon Oer i 16 o grwpiau gwirfoddol yn ardaloedd cronfa Cymoedd Nedd ac Afan. Cefnogodd y Gronfa Budd ystod o weithgareddau cymunedol gan gynnwys dathliadau lleol ar gyfer Jiwbilî Platinwm y Frenhines, cynyddu mynediad i fwyd i deuluoedd yn Resolfen trwy Siop Y Ddraig Goch, gwella sgiliau byw'n annibynnol oedolion ag anableddau dysgu yn ardal Croeserw, lleihau unigedd menywod o Lyncorrwg mewn cyfres o sesiynau crefftau cymdeithasol, gwella'r amgylchedd lleol drwy grwpiau gwirfoddol yn y Cymer a Glyncorrwg, a gwella cyfleusterau ym Mharc Resolfen.



ADRAN 2

Newidiodd y dirwedd wirfoddoli yn ystod y pandemig. Yn ystod y flwyddyn, gwelsom argyfwng gwirfoddoli cenedlaethol gyda llawer o wirfoddolwyr yn rhoi'r gorau i wirfoddoli oherwydd oedran, bregusrwydd, cyfrifoldebau gofalu, ac effeithiau'r argyfwng costau byw. Fodd bynnag, parhaodd gwirfoddoli i fod yn swyddogaeth greiddiol i'n cefnogaeth ac yn rhan hanfodol o'r gymdeithas ddinesig. Mae gwasanaethau cyhoeddus, partneriaid statudol a busnesau preifat wedi dechrau datblygu eu dulliau strategol eu hunain o wirfoddoli. Mae ein cymunedau a'n grwpiau lleol yn dibynnu ar y rhai sy'n rhoi o'u hamser am ddim i sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn cael eu darparu ledled yr ardal.

EIN CYFLAWNIADAU

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi:.

- Cefnogi 380 o unigolion gyda gwirfoddoli.
- Cefnogi 44 o sefydliadau gydag arfer da o ran gwirfoddoli.
- Hwyluso 4 cyfarfod Grŵp Cymorth i Gymheiriaid Rheolwyr Gwirfoddol a fynychwyd gan 49 o fudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr.
- Gweithio gyda darparwyr addysg a sefydliadau trydydd sector i greu cyfleoedd i fyfyrwyr Bagloriaeth Cymru.
- Gweithio gyda Chymdeithas Gymunedol BME Castell-nedd Port Talbot a chynnal seremoni wobrwyo gwirfoddolwyr a amlygodd 30 o Arwyr Di-glod yng Nghastell-nedd Port Talbot.

EIN PROSIECTAU GWIRFODDOLI

Gweithffyrdd +

Nod Gweithffyrdd + yw helpu pobl i adeiladu bywyd gwell trwy helpu pobl i gael gwaith. Mae'r prosiect yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant a gwaith cyflogedig. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae elfennau gwirfoddoli'r prosiect wedi:

- Cefnogi 22 o wirfoddolwyr unigol.
- Gweithio gyda 21 o sefydliadau i ddatblygu arferion da o ran gwirfoddoli.



Prosiect SHINE

Daeth Prosiect SHINE (Cymorth i Helpu'ch Annibyniaeth trwy Feithrin a Grymuso) i ben yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Wedi'i ariannu gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, rhoddodd y prosiect gymorth emosiynol ac ymarferol mawr ei angen i blant, pobl ifanc a theuluoedd trwy eu cysylltu â chyfeillion gwirfoddol. Mae'r prosiect wedi:

- Recriwtio 36 o wirfoddolwyr sydd wedi rhoi 7,488 o oriau o amser gwirfoddoli.
    - Cefnogi 40 o blant, pobl ifanc a theuluoedd.
    - Cyflwyno 42 o sesiynau hyfforddi i baratoi a datblygu gwirfoddolwyr.
    - Darparu 19 o sesiynau allgymorth mewn ysgol uwchradd leol.

Cronfa Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot

Mae'r gronfa yn cefnogi gwirfoddolwyr ifanc (14-25 oed) i fod yn rhan o banel grantiau dan arweiniad pobl ifanc sy'n dyrannu cyllid i grwpiau lleol i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n canolbwyntio ar ieuenctid. Caiff ceisiadau eu hasesu yn ôl gallu'r prosiect i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac anogir ymgeiswyr i fyfyrio ar y pum ffordd o weithio. Mae'r panel wedi:

- Cefnogi 4 aelod gwirfoddol ifanc o'r panel grantiau.
- Dosbarthu £4,960 i 5 grŵp lleol gan arwain at ddatblygu 69 o gyfleoedd gwirfoddoli newydd i bobl ifanc.

Prosiect Gwirfoddoli Rhanbarthol

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio gyda Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe i helpu Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg i ddatblygu dull rhanbarthol o wirfoddoli. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyflwyno gweithdai gyda chwe phartner a arweiniodd at ddatblygu Strategaeth Gwirfoddoli Ranbarthol.
- Dod â Rheolwyr Gwirfoddol o Gastell-nedd Port Talbot ac Abertawe ynghyd i gryfhau'r ffordd y caiff gwirfoddolwyr eu diogelu.
- Digwyddiad diolch i wirfoddolwyr yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr.
- Gweithio gyda chartrefi gofal i ddeall gwerth cynnwys gwirfoddolwyr a sefydliadau trydydd sector.
- Cefnogi gwirfoddolwyr sy'n rhan o'r bartneriaeth sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

ADRAN 3

Trefnodd a hwylusodd y Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol fforymau a rhwydweithiau trydydd sector, gan roi cyfle i ddod â grwpiau, sefydliadau ac unigolion ynghyd. Gwnaethom ymgysylltu â phartneriaid allweddol ar lefel strategol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddylanwadu ar bolisïau, strategaethau, cynllunio a darpariaeth sy'n effeithio ar y trydydd sector.

YMGYNGHORIADAU

- Gwnaethom gefnogi gweithgarwch ymgysylltu a chyn-ymgynghori Llywodraeth Cymru gyda chymunedau drwy gynnal 2 sesiwn ymgysylltu i gasglu barn y sector ar ddatblygu'r Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru.
- Gwnaethom ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.
- Gwnaethom drefnu digwyddiad ymgynghori ar gyfer y trydydd sector i gasglu barn ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor, Adfer, Ailosod, Adnewyddu 2022-2027.

FFRAMWAITH GWASANAETHAU TRYDYDD SECTOR Y BWRDD IECHYD

Gwnaethom gefnogi'r Bwrdd Iechyd i gyd-gynhyrchu ei broses gaffael ar gyfer gwasanaethau trydydd sector drwy:

- Recriwtio 3 chynrychiolydd y trydydd sector i eistedd ar Grŵp Llywio Gwasanaethau Trydydd Sector i oruchwylio'r broses ail-gomisiynu.
- Darparu cefnogaeth un-i-un i sefydliadau gwirfoddol i'w helpu drwy'r broses diwydrwydd dyladwy i ddod yn rhan o'r Fframwaith Gwasanaethau Trydydd Sector.
- Cynhyrchu cyfres o adnoddau i gefnogi'r sector gyda'r broses gaffael gan gynnwys canllawiau cam wrth gam a pholisïau enghreifftiol.
- Trefnu Gweithdy Hyfforddiant Rheoli Ansawdd Ar-lein 2 awr am ddim i gefnogi sefydliadau sy'n ymuno â'r Fframwaith gyda'r agwedd sicrhau ansawdd ar y broses diwydrwydd dyladwy. Roedd y cwrs yn llawn gyda 17 o sefydliadau yn cymryd rhan.
- Cefnogi 96 o sefydliadau o'r rhanbarth i wneud cais a phasio'r cam diwydrwydd dyladwy.
- Cynnal cyfres o sesiynau ymgysylltu 'Dweud Eich Dweud' sy'n galluogi sefydliadau cymunedol a gwirfoddol, cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr ac unigolion i rannu eu barn ar y gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu comisiynu gan y trydydd sector.

YMGYSYLLTU A DYLANWADU

DYWEDODD Y RHAI A GYMERODD RAN:

"Cafodd y gefnogaeth a gynigiwyd wrth wneud cais i ymuno â'r Fframwaith ei gwerthfawrogi'n fawr. Dyma'r tro cyntaf i mi wneud cais o'r fath a sicrhaodd y gefnogaeth ddilynol fod y broses gyfan yn hawdd iawn ei deall. Mae gwybod bod y rhwydweithiau cymorth hyn ar gael yn rhoi tawelwch meddwl."

"Roedd staff y Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol yn barod iawn eu cymorth yn rhoi gwybod i ni am y ffordd orau o fynd ati i lenwi'r ffurflen ac yn helpu gyda'n polisïau."

"Roedd y gefnogaeth mor fuddiol. Fe gymerodd lawer o'r straen allan o'r broses ac roeddem yn teimlo bod digon o gefnogaeth gennym wrth wneud ein cais, diolch."

"Rhoddwyd trosolwg ardderchog, gyda chefnogaeth ymgynghori allweddol a dehongliad o'r broses PPQ."



LLYWODRAETHU DA

ADRAN 4

Gwnaethom ddarparu gwybodaeth a chymorth i sefydliadau ganolbwyntio ar adfer busnes. Gwnaethom ddarparu cefnogaeth i ymddiriedolwyr i gynyddu eu hyder, eu sgiliau a'u gwybodaeth, a rhoddwyd cymorth dwys i sefydliadau fynd i'r afael â chynllunio ariannol a chynaliadwyedd.

EIN CYFLAWNIADAU

- 30 o grwpiau newydd wedi cael eu sefydlu, y mae 7 ohonynt wedi cael eu cefnogi i gofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol.
- 190 o grwpiau wedi cael eu cefnogi gyda'u llywodraethu.
- 25 o grwpiau wedi cael cymorth dwys i gryfhau eu llywodraethu.



GWOBR Y FRENHINES AM WASANAETH GWIRFODDOL (QAVS)

Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol (QAVS), sy'n gyfwerth ag MBE, yw'r dyfarniad uchaf a roddir i grwpiau gwirfoddol lleol yn y DU. Mae'n cael ei dyfarnu am oes. Yn ein hardal ni, enwebwyd Neuadd Cwmllynfell ar gyfer y wobr fawreddog hon, a derbyniodd y wobr mewn digwyddiad dathlu ym mis Hydref 2022.



GWYBODAETH, CYNGOR A HYFFORDDIANT

ADRAN 5

Gwnaethom ddarparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant sydd eu hangen ar sefydliadau trydydd sector, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a staff cyflogedig i ddarparu gwasanaethau a chymorth i'w cymunedau, eu buddiolwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

EIN CYFLAWNIADAU

- Darparwyd cyngor ac arweiniad uniongyrchol i 558 o sefydliadau.
- Cefnogwyd 97 o sefydliadau i gael gafael ar gyngor ac arweiniad arbenigol.
- Cyflwynwyd 4 sesiwn ymwybyddiaeth arbennig i aelodau.
- Darparwyd 11 o gyrsiau hyfforddi i 104 o gyfranogwyr o grwpiau a sefydliadau lleol a 4 sesiwn hyfforddi ar wahân i baratoi a datblygu gwirfoddolwyr.



CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol trwy ein gwefan, cylchlythyrau a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Cynyddodd nifer y bobl sydd wedi tanysgrifio i'n e-gylchlythyr misol o 798 i 876 yn ystod y flwyddyn gyda chyfradd agor o 35% ar gyfartaledd.

O ran ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol:

- Edrychwyd ar 4,706 o dudalennau bob mis ar gyfartaledd, gydag uchafbwynt o 7,239 ym mis Mehefin 2022.
- Cafwyd 2,588 o sesiynau'r mis, gydag uchafbwynt o 3,994 ym mis Mehefin 2022.
- Cafwyd cyfradd bownsio o 61.74% ar gyfartaledd, gyda'n cyfradd orau o 57.08% ym mis Hydref 2022.

O ran ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol:

- Cynyddodd nifer ein dilynwyr ar Twitter i 3,910 a gwnaethom drydar 37 gwaith y mis, derbyniwyd 9,145 o argraffiadau a chafwyd 2,396 o ymweliad â'n proffil ar gyfartaledd.
- Cawsom 14 o ddilynwyr newydd y mis ar Facebook, crëwyd 34 o bostiadau'r mis, a chyrhaeddwyd 7,499 o bobl y mis ar gyfartaledd.
- Cynyddodd nifer ein dilynwyr ar Instagram o 570 i 651. Crëwyd 6 phostiad y mis a chyrhaeddwyd 152 o gyfrifon y mis ar gyfartaledd.

Hwyluswyd 4 cyfarfod o'r Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Rhanbarthol i gefnogi deialog rhwng y Trydydd Sector, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

ADRAN 6

IECHYD MEDDWL

- Yn ystod wythnos Iechyd Meddwl Plant, cynhaliwyd 2 sesiwn codi ymwybyddiaeth, gan ddod ag 11 o asiantaethau gwahanol at ei gilydd er mwyn i'r gymuned ddysgu mwy am yr adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael i helpu i gefnogi iechyd a lles emosiynol plant a phobl ifanc.
- Gwnaethom gefnogi'r agenda trawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl yng Ngorllewin Morgannwg trwy hwyluso gweithdai yn eu Huwchgynadleddau Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl.
- Gwnaethom recriwtio cynrychiolwyr sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau ar gyfer Grŵp Llywio Noddfa, sy'n goruchwylio gwasanaeth y tu allan i oriau sy'n darparu cymorth ymarferol a therapiwtig cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl sydd mewn perygl o argyfwng iechyd meddwl.
- Ar Ddiwrnod Iechyd Meddwl y Byd, gwnaethom gyd-hwyluso sesiwn ar lais defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer y Bwrdd Iechyd.
- Cynhaliwyd 6 chyfarfod o'r Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol.



IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES

ADBORTH

Dywedodd defnyddiwr gwasanaeth am y cymorth a ddarperir gan yr Hwylusydd Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl:

"Hoffwn i ddiolch i chi am ddod o hyd i'r lle i mi a mynd â fi yno. Hefyd, am gadw eich gair y byddwch chi'n cadw mewn cysylltiad. Roeddwn i'n meddwl y byddai rhywun yn dweud wrtha' i y byddai'n rhaid i mi orffen cyn i mi fod eisiau. Ond fe wnes i barhau ... roedd hi'n dda cael gwybod fy mod i wedi gwneud gwaith da!"



PRESGRIPSIYNU CYMDEITHASOL

- Cynhaliwyd 2,754 o apwyntiadau presgripsiynu cymdeithasol gyda chleifion ar draws clystyrau Afan, y Cymoedd Uchaf a Chastell-nedd.

GWASANAETH LLES CYMUNEDOL

- Drwy'r Gwasanaeth Lles Cymunedol, gwnaethom helpu 395 o unigolion i aros yn eu cartrefi eu hunain neu gael eu rhyddhau'n amserol o'r ysbyty.

ASTUDIAETH ACHOS:

Derbyniwyd atgyfeiriad ar gyfer rhywun oedd yn cael ei ryddhau o'r ysbyty. Doedd dim bwyd na gwely yn y tŷ. Gwnaethom gysylltu â'r cynghorydd lleol a ofynnodd am help ar Facebook a daethpwyd o hyd i rywun oedd yn barod i roi gwely. Gwnaethom drefnu bod cwmni symud yn casglu'r gwely y bore canlynol ac anfonwyd parsel bwyd i'r eiddo. Gwnaethom gynnwys y Gwasanaeth Annibyniaeth Gymunedol i ddarparu cefnogaeth barhaus.

TRAFNIDIAETH I GANOLFANNAU BRECHU

- Gwnaethom drefnu 125 o deithiau unigol i alluogi pobl i deithio i ganolfannau brechu.

CYD-GYNHYRCHU

- Buom yn gweithio gyda chydweithwyr rhanbarthol i sicrhau bod cyd-gynhyrchu yn cael ei wreiddio ar draws Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth i unigolion gymryd rhan yn y broses.

GWERTH CYMDEITHASOL

Mewn partneriaeth â Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe, hwyluswyd 2 Fforwm Gwerth Cymdeithasol.

GOFALWYR

Fel yr arweinydd rhanbarthol ar Ofalwyr, gwnaethom gefnogi gwaith Partneriaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg drwy:

- Gadeirio a hwyluso 8 cyfarfod o Fwrdd Partneriaeth Gofalwyr Gorllewin Morgannwg i fwrw ymlaen â newidiadau i'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl ledled y rhanbarth.
- Trefnu 6 chyfarfod o Fforwm Cyswllt Gofalwyr Gorllewin Morgannwg dan arweiniad gofalwyr i sicrhau bod lleisiau gofalwyr di-dâl yn ganolog i benderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr.
- Cefnogi gofalwyr di-dâl ledled y rhanbarth i leisio eu barn a defnyddio eu profiad bywyd i helpu i wneud newid cadarnhaol a siapio gwasanaethau iechyd a gofal i ofalwyr di-dâl drwy'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr.
- Cyd-gynhyrchu a hyrwyddo taflen gymorth a thudalennau cymorth costau byw ar gyfer gofalwyr.
- Anfon taleb rhodd i bob gofalwr i ddiolch iddynt ac i ddathlu'r cyfraniad mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud i'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr a gweithgareddau cyd-gynhyrchu'r Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr ar Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr.
- Recriwtio 2 gynrychiolydd sy'n ofalwyr i eistedd ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.
- Cynyddu'r ystod o ddarpariaeth seibiant byr a seibiant i ofalwyr drwy gefnogi dyrannu £236,647 o gyllid yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr.

IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES

PLANT A PHOBL IFANC

- Gwnaethom gynnal digwyddiad i'r trydydd sector ar gomisiynu gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf i ddarparu gwybodaeth am y broses o gyflwyno ceisiadau
- Gwnaethom gynnal 4 cyfarfod o'r Fforwm Sector Gwirfoddol Plant a Phobl Ifanc
- Gwnaethom gynnal 4 cyfarfod o Rwydwaith Darparwyr Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot

YMATEB I'R ARGYFWNG YN WCRÁIN

Gwnaethom ymateb i'r argyfwng yn Wcráin ar lefel leol a chenedlaethol.

- Gwnaethom gefnogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot a phartneriaid eraill i baratoi ar gyfer dyfodiad trigolion o Wcráin yng Nghastell-nedd Port Talbot.
- Gwnaethom gynorthwyo trigolion o Wcráin trwy eu cyfeirio at weithgareddau cymunedol, grwpiau hunangymorth a chyfleoedd gwirfoddoli. Trefnwyd sawl sesiwn ymwybyddiaeth ar gyfer y trigolion fel diogelu, iechyd meddwl, cam-drin domestig a throseddau casineb.
- Gwnaethom gefnogi grwpiau cymunedol lleol i baratoi ac ymateb i anghenion trigolion o Wcráin.
- Buom yn gweithio gyda phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i gefnogi Cynllun Uwch-noddwr Llywodraeth Cymru.



YMATEB I'R ARGYFWNG COSTAU BYW

Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, rydym wedi:

- Gweithio gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot i sefydlu a chyd-gadeirio'r Bartneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi.
- Dwyn ynghyd sefydliadau trydydd sector drwy rwydweithiau a chyfarfodydd fforwm er mwyn deall yn well sut mae costau byw yn effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd.
- Cefnogi sefydliadau i sefydlu mannau cynnes a banciau bwyd ac i recriwtio gwirfoddolwyr newydd.
- Sefydlu tudalen we ddynodedig gyda gwybodaeth am y cymorth y gallai preswylwyr fod yn gymwys i'w gael a gweithio gyda gofalwyr di-dâl i ddatblygu taflen copi caled i sicrhau bod gan bobl nad ydynt yn mynd ar-lein fynediad at wybodaeth.
- Cysylltu â chydweithwyr Cefnogi Trydydd Sector Cymru a Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am sut mae costau byw yn effeithio ar bobl a sefydliadau yn yr ardal leol.

CEFNOGAETH ALLGYMORTH I GYMUNEDAU AMRYWIOL

Gyda chyllid gan y Bwrdd Iechyd, buom yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo mynediad at wybodaeth a darparu arweiniad ar iechyd, addysg, busnes a materion eraill sy'n effeithio'n anghymesur ar ein cymunedau amrywiol.

- Anfonwyd dros 200 o negeseuon i'r 147 o gyfranogwyr ar y grŵp WhatsApp gwybodaeth iechyd, gan ddiweddaru pawb am wasanaethau iechyd, sesiynau brechu galw heibio a negeseuon lles eraill.
- Gwnaethom drefnu a hwyluso Resolute Women Chai & Chat, grŵp rhithwir i ferched gyda 60 o gyfranogwyr, sy'n cynnal trafodaethau, yn cynllunio digwyddiadau ac yn cynnig help a chefnogaeth i'w gyfranogwyr.
- Cynhaliwyd 27 o sesiynau Chai & Chat wyneb yn wyneb, gyda hyd at 20 o gyfranogwyr yn cymryd rhan ym mhob un.
- Gwnaethom ymgysylltu â dros 50 o sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth y maent yn ei rhoi i gymunedau amrywiol. Ymhlith y sefydliadau partner roedd Cymdeithas Gymunedol BME Castell-nedd Port Talbot, Mind Kooth Castell-nedd Port Talbot, Grŵp Colegau NPTC, Prifysgol Abertawe, Heddlu De Cymru, Tenovus, a'r Ganolfan Gymunedol Affricanaidd.
- Gwnaethom gymryd rhan mewn astudiaeth ddichonoldeb yn y gymuned a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe a oedd yn canolbwyntio ar anghydraddoldebau o ran nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio ar gyfer diabetes yn y gymuned ethnig leiafrifol.
- Gwnaethom gydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe ar brosiect ymchwil gan Gonsortiwm COVINFORM a ddatgelodd sut y gwnaeth aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol ymdopi â'r heriau a wynebwyd yn sgil pandemig Covid.

IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES

ADBORTH

"Rydw i wedi cael fy mrechu'n llawn nawr a gallaf deithio gyda fy nheulu. Rwyf wir yn gwerthfawrogi eich bod chi wedi fy nghyflwyno i wahanol adnoddau i allu gwneud penderfyniad gwybodus."

"Doeddwn i ddim yn ymddiried mewn meddyginiaeth ac roeddwn i'n credu mewn meddyginiaethau naturiol fel rheoli diet ac ymarfer corff. Erbyn hyn, rwy'n deall sut i gysylltu â fy meddyg teulu a gwneud apwyntiad a gofyn am gyngor y meddyg."

"Rydw i'n falch fy mod i wedi mynychu'r digwyddiad swyddi; rydw i'n gwybod nawr bod swyddi yn ystod y tymor ar gael yn lleol. Roeddwn i bob amser yn meddwl sut alla i ddod o hyd i swydd sy'n fy ngalluogi i weithio o amgylch fy nheulu. Roeddwn i angen newid yn fy mywyd, ond nawr rwy'n chwilio am swyddi i fod yn fwy annibynnol. Rydw i wir yn gwerthfawrogi eich bod chi'n rhoi gwybod i ni am y gwasanaethau a'r sefydliadau y gallwn ni gael mynediad iddyn nhw yn Chai & Chat."



YR HYN Y MAE'R RHAI RYDYM WEDI GWEITHIO GYDA NHW WEDI EI DDWEUD

GAN GRWPIAU LLEOL

"Newyddion da – rydym wedi cael yr arian!" "Rydym yn hapus iawn, diolch i'ch help chi. Rydym yn ei werthfawrogi'n fawr!"

"Roeddwn i wir yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gynigiwyd i mi wrth i fi fynd ati i wneud cais i ymuno â Fframwaith y Trydydd Sector. Fe ges i'r union gymorth a'r gefnogaeth yr oedd eu hangen arnaf i gwblhau fy nghais."

"Diolch yn fawr iawn i Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot am grant Cronfa Ieuenctid CNPT! Mae'n hwb enfawr tuag at ein cronfa gwisgoedd a bydd hefyd yn talu tuag at ein cyfarpar tumble. Diolch i chi am eich cymorth gyda'n Polisi Gwirfoddoli, mae'r holl help rydych wedi'i roi yn cael ei werthfawrogi'n fawr."

GAN BROSIECTAU SY'N CAEL EU RHEDEG GAN WIRFODDOLWYR

"Gallaf weld gwahaniaeth mawr yn fy mab, mae'n dal y bws a'r trên i bobman diolch i'r gwirfoddolwr."

"Mae fy nghyfaill gwirfoddol wedi bod yn help anhygoel dros y misoedd diwethaf. Mae hi wedi bod yn amyneddgar iawn."

GAN GLEIFION GWASANAETHAU PRESGRIPSIYNU CYMDEITHASOL

"Diolch am eich holl help, rydych chi wir wedi gwneud gwahaniaeth go iawn ac rwy'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth."

"Diolch am yr holl wybodaeth. Doeddwn i ddim yn sylweddoli bod yr holl help yma ar gael."

GAN GYDWEITHWYR IECHYD

"Rydw i eisiau diolch i chi am eich help wrth ryddhau claf o'r ysbyty yn ddiweddar. Roedd y person rwy'n gweithio gydag ef mor ddiolchgar am y gwely y daethoch o hyd iddo, ac roedd y gyrrwr mor gynorthwyol. Fe wnaeth wahaniaeth mawr ar y dydd."

"Rhoddodd y staff drosolwg ardderchog, gyda chefnogaeth ymgynghori allweddol a dehongliad o gwestiynau cyffredin yn ymwneud â phroses PPQ."

GAN AELODAU

"Rydw i wir yn gwerthfawrogi eich bod chi wedi rhoi gwybod i ni am y digwyddiad hwn yn Chai & Chat ddydd Mawrth diwethaf. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyfleoedd hyn i fynychu."

"Voluntary Voice! Am gyhoeddiad bach gwych"

"Rydych chi'n seren! Diolch yn fawr iawn am fynd allan o'ch ffordd. Mae eich ymdrechion yn rhyddhad mawr i mi a fy ngrŵp."

YMDDIRIEDOLWYR A GWEINYDDWYR ELUSEN

Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot 2022-2023

Barbara Cole	Eglwys Sant Catwg
David Davies YH (Bu farw Mawrth 2023)	Clwb Rotari Castell-nedd
Louise Fleet CStJ YH	Thrive Women's Aid
Hugh James	Plwyf Llansawel
Joanna Jenkins MBE DL YH	YMCA Castell-nedd
Doreen Jones	Age Connects Castell-nedd Port Talbot
Lorraine Miles	Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot
Clive Owen BEM	Gofal Profedigaeth Cruse Morgannwg
Saifur Rahaman (o Hyd 2022)	Cymdeithas Gymunedol BME Castell-nedd Port Talbot
Dr Edward Roberts MBE DL CStJ FRCGP	Marauders Men's Health (Cadeirydd)
Malcolm Scott	View (Glynneath) Limited – Canolfan Hyfforddi Glyn-nedd
Lesley Smith	VIEW (DOVE) Limited
Gwenda Thomas	Canolfan Maerdy
Emma Tweed	Gofal a Thrwsio Bae'r Gorllewin
Linda Whittaker (Is-gadeirydd)	Tai Tarian
Aelodau Cyfetholedig	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - gwag
Trysorydd	John Flynn
Archwilwyr	Bevan Buckland LLP Cyfrifwyr Siartredig Cardigan House Castle Court Parc Menter Abertawe Abertawe SA7 9LA
Bancwyr	Banc Lloyds
Ysgrifennydd y Cwmni	Mrs Gaynor Richards MBE DL LLD (Hon)
Llywydd Oes	Mrs Margaret Thorne CBE DL

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot Cyf

Barn

Rydym wedi adolygu'r datganiadau ariannol cryno ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, sy'n cynnwys y datganiad cryno o incwm cynhwysfawr a'r datganiad o sefyllfa ariannol. Mae'r datganiadau ariannol cryno yn cael eu tynnu o'r datganiadau ariannol blynyddol llawn archwiliedig, a gymeradwywyd gan y bwrdd. Roedd adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ar y datganiadau ariannol blynyddol llawn yn ddiamod. Nid yw'r Cyfrifon cryno yn cynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu dealltwriaeth lawn o faterion ariannol y cwmni elusennol. Gellir cael copi o ddatganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad yr Ymddiriedolwyr o'r swyddfa gofrestredig.

Barn ar y datganiadau ariannol cryno:

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â datganiadau ariannol blynyddol llawn Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Nid ydym wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad y llofnodwyd ein hadroddiad ar y datganiadau ariannol blynyddol llawn, a dyddiad yr adroddiad hwn.

Priod gyfrifoldebau'r bwrdd a'r archwilydd

Mae'r bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad blynyddol cryno yn unol â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig.

Ein cyfrifoldeb ni yw adrodd i chi am ein barn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno yn erbyn datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os ydym yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol cryno.

Gwnaethom gynnal ein gwaith yn unol ag ISA (720) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn y cwmni elusennol yn disgrifio sail ein barn ar y datganiadau ariannol hynny ac ar Adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

Alison Vickers (Uwch Archwilydd Statudol)
Ar gyfer ac ar ran Bevan Buckland LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Abertawe SA7 9LA

Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot Cyf

Datganiad o Weithgareddau Ariannol (Ymgorffori Cyfrif Incwm a Gwariant) Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 (Rhif Cwmni 3341466)

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm Y Cronfeydd 2022 £	Cyfanswm Y Cronfeydd 2023 £
INCWM A GWADDOL O				
Gweithgareddau elusennol	271,342	1,278,181	1,549,523	1,441,564
Gweithgaredd masnachu arall	24,216	-	24,216	33,932
Incwm buddsoddi	11,624	-	11,624	5,090
Cyfanswm	307,182	1,278,181	1,585,363	1,480,586
GWARIANT AR				
Gweithgareddau elusennol	184,903	1,585,874	1,770,777	1,253,024
Cyfanswm	184,903	1,585,874	1,770,777	1,253,024
INCWM/GWARIANT NET	122,279	(307,693)	(185,414)	227,562
TROSGLWYDDIADAU RHWNG Y GRONFA	-	-	-	-
ARALL WEDI EU CYDNABOD ENILLION/(COLLEDION):				
ar ailbrisio eiddo buddsoddi	-	-	-	34,500
SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD	122,279	(307,693)	(185,414)	262,062
CYSONIADAU CRONFEYDD Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen	1,329,642	838,063	2,167,705	1,905,643
CYFANSWM Y CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN	1,451,921	530,370	1,982,291	2,167,705

GWEITHREDIADAU PARHAUS
Mae'r holl incwm a gwariant wedi codi o weithgareddau parhaus

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol Ar 31 Mawrth 2023
(Rhif Cwmni 3341466)

	2023 £	2022 £
ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL		
Eiddo, offer trwm a chyfarpar	405,249	395,827
Eiddo buddsoddi	120,000	120,000
ASEDAU CYFREDOL		
Dyledwyr	67,715	49,036
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	1,516,435	1,779,108
	1,584,150	1,828,144
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL	(127,108)	(176,266)
ASEDAU CYFREDOL NET	1,457,042	1,651,878
CYFANSWM YR ASEDAU WEDI TYNNU'R RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL	1,982,291	2,167,705
ASEDAU NET	1,982,291	2,167,705
CRONFEYDD		
Cronfeydd anghyfyngedig	1,451,921	1,329,642
Cronfeydd cyfyngedig	530,370	838,063
CYFANSWM Y CRONFEYDD	1,982,291	2,167,705

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol Ar 31 Mawrth 2023
(Rhif Cwmni 3341466)

SYMUDIADAU YN Y CRONFEYDD

	At 01.04.22	Symudiad net mewn cronfeydd	At 31.03.23
Cronfeydd anghyfyngedig			
Cronfeydd anghyfyngedig	106,013	(971)	105,042
Cronfeydd dynodedig	1,080,000	121,500	1,201,500
Cronfeydd cyfalaf dynodedig	23,629	1,750	25,379
Eiddo buddsoddi cronfeydd cyfalaf dynodedig	120,000		120,000
	1,329,642	122,280	1,451,921
Cronfeydd cyfyngedig			
Cronfeydd cyfyngedig	465,866	(315,366)	150,500
Cronfeydd cyfalaf cyfyngedig	372,198	7,673	379,870
	838,063	(307,693)	530,370
	2,167,705	(185,414)	1,982,291

Mae Cronfeydd Dynodedig yn cynrychioli:	£
Costau critigol	325,000
Cynnal gweithgareddau craidd a datblygu staff	731,500
Cronfa wrth gefn offer TGCh	30,000
Atgyweiriadau mawr	115,000
	1,201,500
Gwariant Cyfalaf Dynodedig	145,379
	1,346,879

Y costau critigol yw'r costau cynllunio wrth gefn ar gyfer y costau critigol i gefnogi amcanion tymor canolig yr elusen.

Mae'r elusen wedi dynodi costau rhedeg am gyfnod sylfaenol o bedwar mis.

Mae'r cronfeydd dynodedig eraill ar gyfer gwariant arfaethedig a fydd yn cael ei glirio yn y tymor canolig.

Balans y gronfa cyfalaf cyfyngedig, sef £379,870 (2022 - £372,198), yw'r gwerth net sydd ar y llyfrau ar gyfer yr adeiladau a'r offer a brynwyd drwy grant cyfyngedig. Y trosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn hon yw'r tâl dibrisiant am y flwyddyn.

Mae'r gronfa Gwariant Cyfalaf Dynodedig yn adlewyrchu gwerth yr arian a wariwyd ar yr asedau diriaethol nad ydynt wedi eu hariannu o incwm grant. Gwariant allan o'r cronfeydd cyffredinol yw'r balans hwn.

Cronfeydd anghyfyngedig — cronfeydd cyffredinol yr elusen sydd ar gael i'w gwario at unrhyw un o ddibenion yr elusen yw'r gronfa hon. Cofnodion mantoli ar gyfer y trosglwyddiadau a nodir uchod mewn cronfeydd dynodedig a chyfyngedig yw'r trosglwyddiadau i mewn i'r gronfa hon ac allan ohoni.

CERRIG MILLTIR

1997
Sefydlu Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot – tîm o bedwar aelod o staff i ddechrau. Penodi Mrs Margaret Thorne yn Gadeirydd a Gaynor Richards yn Gyfarwyddwr.

1997
Llofnodi'r Compact rhwng Sector Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

1999
Lansio'r Compact rhwng Sector gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a Grŵp Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot

2000
Lansio Fforwm Trosfwaol y Sector Gwirfoddol

Gwaith adeiladu yn cychwyn yn 17-21 Stryd Alfred

2001
Agor Tŷ Margaret Thorne

2002
Ymweliad Jiwbilî y Frenhines â Pharc Margam

2003
Aelod rhif 300 o CGG Castell-nedd Port Talbot

2004
Lansio Strwythur Fforwm Trydydd Sector newydd

2005
Blwyddyn Gwirfoddoli

Lansio gwefan CGG Castell-nedd Port Talbot

Mrs Margaret Thorne yn mynd ymlaen i fod yn CBE yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines

Llofnodi ac ail-lansio Cytundeb Partneriaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sector Gwirfoddol a Chymunedol Castell-nedd Port Talbot


Agoriad swyddogol Rhif 36 Stryd Alfred



















CERRIG MILLTIR

2008
Gaynor Richards, Cyfarwyddwr CGG Castell-nedd Port Talbot yn derbyn MBE
Agor yr estyniad yn Nhŷ Margaret Thorne

2009
Ad-drefnu ffiniau'r Byrddau Iechyd; ffurfio Bwrdd Iechyd ABMU

2010
Lansio Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Rhanbarthol y Trydydd Sector

2011
Blwyddyn Gwirfoddoli Ewrop

2012
Ailstrwythuro Fforymau CGG Castell-nedd Port Talbot

2013
Diwrnod Gwirfoddoli'r Gweilch yn y gymuned leol

2013
Gaynor Richards yn dechrau ar ei chyfnod fel Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg


2014
Mrs Margaret Thorne CBE DL yn dod yn Llywydd am Oes o CGG Castell-nedd Port Talbot

Ethol David Davies YH yn Gadeirydd y Bwrdd Ymddiriedolwyr

2015
Lansio Compact Heddlu De Cymru â'r Sector Gwirfoddol a'r Sector Cymunedol

2016
Llofnodi'r Compact ar ei newydd wedd rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol yng Nghastell-nedd Port Talbot

2017
Creu Cefnogi Trydydd Sector Cymru





















CERRIG MILLTIR

2018
Sicrhaodd partneriaeth ag Interlink RCT gyllid gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen Y Cymoedd i weithio mewn partneriaeth ag arweinwyr a chymunedau lleol i sicrhau bod y gronfa yn sicrhau newid cadarnhaol a pharhaol

2019
Gwnaethom dderbyn £100,000 gan Gronfa Her yr Economi Sylfaenol ar gyfer prosiect menter gymdeithasol ar gyfer gofal a chymorth cartref lefel isel

2020
Gwnaethom gefnogi sefydliadau angori cymunedol yn eu hymateb i bandemig COVID-19. Gwnaethom gydlynu'r gwaith o gyrchu cyfarpar diogelu personol ar gyfer y trydydd sector a chludiant i ganolfannau brechu hefyd, yn ogystal ag ailgynllunio ein prosiect cyfeillio i ddiwallu anghenion buddiolwyr yn ystod y cyfyngiadau symud.

2021
Gwnaethom weithio gyda'r Awdurdod Lleol yn ei ymateb i'r llifogydd yn Sgiwen a datblygu pecyn cymorth iechyd meddwl ac ap.l codi arian i helpu'r rhai y gwnaeth y digwyddiad effeithio arnynt

2022
Gwnaethom gymryd rhan yn y broses o ffurfio'r bartneriaeth gyda'r cyngor ac eraill i gefnogi'r argyfwng yn dilyn y rhyfel yn Wcráin






















CERRIG MILLTIR

INCWM AM BOB BLWYDDYN



DROS YR 25 MLYNEDD, MAE GENNYM:


Wedi cael cyfanswm incwm o
£30,107,148

DROS YR 25 MLYNEDD, MAE GENNYM:

Wedi gweithio gyda
11,090 Grwpiau

CERRIG MILLTIR

SWM YR ARIAN A DDYGWYD I'R ARDAL



DROS YR 25 MLYNEDD, MAE GENNYM:

Wedi dod ag un ychwanegol i mewn

£46,308,529

i mewn i Gastell-nedd Port Talbot

DROS YR 25 MLYNEDD, MAE GENNYM:

Wedi helpu i sefydlu

772

grwpiau a gwasanaethau newydd